Strategaeth Cynnwys Llyfrgell Prifysgol Abertawe

Fframwaith yw Strategaeth Cynnwys Llyfrgell Prifysgol Abertawe sy'n sefydlu ein dull ni o reoli a datblygu ein casgliadau ffisegol o lyfrau a chylchgronau gan fwyaf ac, yn fwyfwy, ei fynediad at gynnwys digidol. Mae'r ddogfen hon yn sail i nodau ac amcanion y Llyfrgell a'r Brifysgol gyfan fel y'u hamlinellir gan eu cynlluniau strategol priodol.

Heriau

- Byd cyfnewidiol o gyfathrebu ysgolheigaidd sy'n symud tuag at Fynediad Agored.
- Byd cyhoeddi sy'n fwyfwy cymhleth lle gall y cynnwys newid cyhoeddwr a/neu lwyfan, a chynnwys trefniadau cytundebol cymhleth sy'n adlewyrchu cyfuniad o Fynediad Agored a modelau a marchnadoedd cyhoeddi traddodiadol.
- Newidiadau i flaenoriaethau ymchwil a dysgu ac addysgu gan gynnwys symud tuag at ddysgu cyfunol a modelau dysgu eraill.
- Pwysau ar y man astudio a amlygir gan y cynnydd i niferoedd myfyrwyr a'r gwaith arfaethedig i adnewyddu Llyfrgell Singleton.
- Pwysau cyllidol wrth i gostau cynnwys gynyddu ochr yn ochr â'r disgwyliadau.

Er mwyn ymateb i'r heriau hyn, bydd y llyfrgell yn:

- Cyflenwi a/neu ddarparu mynediad at gynnwys gwybodaeth mewn modd amserol sy'n diwallu anghenion defnyddwyr.
- Rheoli casgliadau ffisegol er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o wagle a gwella profiad myfyrwyr o weithio y tu mewn i rwydwaith llyfrgelloedd campws y Brifysgol.
- Bod yn flaengar ac yn ymwybodol o dueddiadau newydd sy'n datblygu mewn cysylltiad â chaffael a defnyddio cynnwys.
- Datblygu gwasanaethau a ffyrdd o weithio newydd a fydd yn rhoi'r boddhad mwyaf i'r defnyddiwr o fewn cyfyngiadau cyllidol a gofodol.

Nodau strategol allweddol

- Gweithredu Polisi Rheoli a Datblygu Cynnwys Llyfrgell er mwyn llywio rheolaeth o gynnwys y llyfrgell yn y dyfodol.
- Mabwysiadu dull digidol yn gyntaf o gaffael cynnwys lle bydd y flaenoriaeth, os oes modd, ar gaffael cynnwys yn ddigidol yn hytrach na mewn print a symud tuag at sefyllfa lle na fydd unrhyw dwf mewn casgliadau ffisegol.
- Ymrwymo i leihau ôl troed casgliadau ffisegol y llyfrgell yn arbennig yn Llyfrgell Singleton, gyda lleihad o 30% fel targed cychwynnol i baratoi ar gyfer y gwaith o adnewyddu'r llyfrgell.

- Cynnal dadansoddiad o gasgliadau ffisegol er mwyn nodi:
    - deunydd y mae galw uchel amdano a/neu ddeunydd cyfredol, gan sicrhau ei fod ar gael drwy silffoedd agored a
    - deunydd y mae galw isel amdano ond sy'n dal yn berthnasol, y gellir ei storio'n well oddi ar y safle, neu benderfynu ei gadw'n unig fel cynnwys digidol.
    - deunydd sy'n werth ei gadw waeth beth fo'i ddefnydd gwirioneddol, a rhoi dulliau ar waith i'w ddiogelu. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys casgliadau arbennig a theitlau lle ystyrir nad oes digon o le ar gael iddynt yn allanol.
- Asesu risgiau sy'n gysylltiedig â mynediad hirdymor i gynnwys digidol llyfrgell gyda golwg ar ymuno â chynlluniau megis LOCKSS a Portico er mwyn sicrhau bod y mynediad atynt yn sefydlog yn y tymor hir.
- Cyfrannu at gydweithrediadau a gwneud defnydd gwell ohonynt, megis yr UKRR (UK Reserve Research), casgliad ymchwil cenedlaethol a ddosberthir yn gydweithredol fel cefnogaeth ychwanegol i anghenion ymchwil y Brifysgol.
- Adolygu'r modd y gweithredir llifau gwaith cyllideb a chaffael cynnwys y llyfrgell er mwyn sicrhau'r adenillon mwyaf ar gyllid a gwasanaeth sy'n ymatebol i amgylchiadau newidiol.
- Cefnogi datblygiad gwasanaethau'r llyfrgell a phrofiad myfyrwyr drwy reoli'n rhagweithiol wagle a chasgliadau ffisegol.

Annette Linton
Pennaeth Cynnwys a Chyfathrebu Ysgolheigaidd y Llyfrgell